## SUL Y BEIBL 2024

# Cynllun Pregeth

Darlleniad: 2 Timotheus 3.14—4.5 (Beibl.net)

14 Ond dal di dy afael yn beth rwyt wedi'i ddysgu. Rwyt ti'n gwybod yn iawn mai dyna ydy'r gwir, ac yn gwybod sut
bobl ddysgodd di. 15 Roeddet ti'n gyfarwydd â'r ysgrifau sanctaidd ers yn blentyn. Drwyddyn nhw y dest ti i ddeall
sut i gael dy achub, drwy gredu yn y Meseia Iesu. 16 Duw sydd wedi ysbrydoli'r ysgrifau sanctaidd hynny i gyd, ac
maen nhw'n dysgu beth sy'n wir i ni, yn cywiro syniadau anghywir, yn dangos beth dŷn ni'n ei wneud o'i le, a'n
dysgu ni i fyw yn iawn. 17 Felly mae gan bobl Dduw bopeth sydd ei angen iddyn nhw wneud pob math o bethau da.

1 Y Meseia Iesu ydy'r un fydd yn barnu pawb (y rhai sy'n dal yn fyw a'r rhai sydd wedi marw). Mae e'n mynd i ddod
yn ôl i deyrnasu. Felly, gyda Duw a Iesu Grist yn dystion i mi, dw i'n dy siarsio di 2 i gyhoeddi neges Duw. Dal ati i
wneud hynny os ydy pobl yn barod i wrando neu beidio. Rhaid i ti gywiro pobl, ceryddu weithiau, annog dro arall
– a gwneud hynny gydag amynedd mawr ac yn ofalus dy fod yn ffyddlon i'r gwir. 3 Mae'r amser yn dod pan fydd
pobl ddim yn gallu goddef dysgeidiaeth dda. Byddan nhw'n dilyn eu chwantau eu hunain ac yn dewis pentwr o
athrawon fydd ond yn dweud beth maen nhw eisiau ei glywed. 4 Byddan nhw'n gwrthod beth sy'n wir ac yn dilyn
straeon celwyddog. 5 Ond, Timotheus, paid cynhyrfu beth bynnag sy'n digwydd. Paid bod ag ofn dioddef. Dal ati i
rannu'r newyddion da gyda phobl, a gwneud y gwaith mae Duw wedi'i roi i ti.

## Cyflwyniad:

Ym 1967, gwnaeth athletwr 20 oed o'r enw Kathrine Switzer hanes trwy fod y fenyw gyntaf i redeg Marathon Boston gan wisgo rhif ras swyddogol. Er nad oedd cyfeiriad penodol at rywedd yn llyfr rheolau'r marathon, deallwyd yn gyffredinol mai dim ond dynion oedd yn cael cymryd rhan. O ganlyniad, cofrestrodd Kathrine ar gyfer y marathon dan ei henw, KV Switzer, a derbyniodd rifau ras a piniodd ar ei bib cyn rhedeg.

Yn ystod y marathon, ymosodwyd arni'n gorfforol gan reolwr y ras, a geisiodd fachu ei rhif rasio a'i thynnu o'r gystadleuaeth. Fe wnaeth rheolwr y ras hefyd taro ei hyfforddwr a'i chyd-redwr i'r llawr cyn cael ei stopio gan gariad Switzer, oedd hefyd yn rhedeg. Er gwaethaf yr holl wrthwynebiadau a rhwystrau, cwblhaodd Kathrine Switzer y ras.

Mae darlleniad heddiw gan 2 Timotheus yn ein hannog i ddal ati er gwaethaf y rhwystrau sy'n ein hwynebu wrth fyw allan ein ffydd.

## Cefndir:

- Gelwir llythyrau Timotheus 1 a 2, a Titus yn 'Epistolau Bugeiliol'
- Roedd awdur Timotheus, sef yr Apostol Paul yn y carchar ar y pryd yn Rhufain, yn disgwyl am dreial, ac o bosib cael ei dienyddio
- Roedd gan Paul berthynas agos â Timotheus, a ddisgrifiodd ef fel, 'mab i mi yn y ffydd,' (1 Timotheus 1.2) a 'mab annwyl i mi' (2 Timotheus 1.2)
- Yn 2 Timotheus, welwn Paul yn trosglwyddo cyfarwyddiadau i Timotheus ynghlyn â'r hyn y credai ddylai fod yn sail i fywyd a gwaith credinwyr

## Cyd-destun:

- Mae Paul yn dweud wrth Timotheus, 'Cofia beth wnes i ei ddweud, a'i gadw fel patrwm o ddysgeidiaeth gywir. Dal di ati i gredu ynddo ac i garu eraill am dy fod yn perthyn i'r Meseia Iesu.' (2 Timotheus 1.13) ac mae'n dweud wrtho am, 'gadw'r trysor sydd wedi'i roi yn dy ofal yn saff ' (adnod 14)
- Yn 2 Timotheus 2, anogir Timotheus i 'adael i haelioni rhyfeddol y Meseia Iesu dy wneud di'n gryf'(adnod 1) a throsglwyddo dysgeidiaeth Paul, 'gyda phobl y gelli di ddibynnu arnyn nhw i ddysgu eraill' (adnod 2). Mae Paul yn rhybuddio Timotheus i osgoi 'crwydro i ffwrdd oddi wrth y gwir' (adnodau 16–18) ac i fod yn garedig wrth bawb (adnod 24)
- Mae Pennod 3 yn dechrau gyda sôn am y 'dyddiau olaf' ac mae adnodau 1–9 yn amlinellu rhai o'r ymddygiadau pechadurus fydd yn gyffredin yn y 'cyfnod olaf hwn.' Yna yn adnod 10, clywn Paul yn atgoffa Timotheus, "Ond rwyt ti'n wahanol...'

Hawlfraint © Cymdeithas y Beibl 2024

# Prif bwyntiau:

## 1 Mae yna ddwy ffordd wahanol iawn o fyw yn y 'dyddiau olaf' hyn.

Mae'r Apostol Paul eisoes wedi trafod y ffordd bechadurus yn adnodau 1–9, ond nid dyna'r ffordd y mae'n disgwyl i Timotheus fyw. Dyma Paul yn annog Timotheus i aros yn ffyddlon i'r hyn y mae wedi'i ddysgu, peth ohono ers bod yn blentyn (adnod 15). Mae'n debyg bod y gwirioneddau hyn wedi cael eu pasio i lawr iddo gan ei famgu, Lois, a'i fam, Eunice, (2 Timotheus 2.5).

### PETHAU I'W HYSTYRIED:

- Mae Pennod 3 yn cynnig dwy ffordd o fyw. Ffordd bechadurus a ffordd Feiblaidd. Ydych chi wedi penderfynu byw ffordd Duw?
- I'r rhai sydd wedi'u magu mewn teuluoedd Cristnogol, beth mae'n golygu'n ymarferol i 'barhau yn yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu' (adnod 14) o'r Ysgrythur? Beth am y rhai na chawsant eu magu mewn teuluoedd Cristnogol? Gan bwy y gallant ddysgu, a phwy sy'n esiampl dda iddynt? I bwy y gallwn drosglwyddo gwirioneddau'r Ysgrythur?
- Mae bod yn 'gyfarwydd â'r ysgrifau sanctaidd' (adnod 15) yn hanfodol ar gyfer iechyd ysbrydol pob Cristion, gan mai dyma sut rydyn ni'n dod i wybod sut Un yw Duw, sut mae'n gweithredu, a beth yw ei gynllun ar gyfer dynolryw. Beth sydd angen i ni ei wneud er mwyn ymwneud yn fwy rheolaidd a dyfnach â'r Beibl? Gosod nodyn ar ein ffôn i'n hatgoffa ni i dreulio amser yn y gair? Cael cynllun darllen Beiblaidd? Bod yn atebol i eraill?

## 2 Mae pob Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw.

'Duw sydd wedi ysbrydoli'r ysgrifau sanctaidd hynny i gyd, ac maen nhw'n dysgu beth sy'n wir i ni, yn cywiro syniadau anghywir, yn dangos beth dŷn ni'n ei wneud o'i le, a'n dysgu ni i fyw yn iawn,' meddai Paul yn adnod 16. Mae hwn yn adnod hynod bwysig ac arwyddocaol, a ddyfynnwyd yn rheolaidd gan Gristnogion i gefnogi'r ffaith bod yr Ysgrythurau wedi'i hysbrydoli gan Dduw ei hun. Mae hyn yn ailddatgan yr hyn a ddysgom yn adnod 15, mai nid geiriau cyffredin yn unig rydym yn darllen yn y Beibl. Mae'r Ysgrythur yn ddefnyddiol, neu'n 'fuddiol' fel mae rhai cyfieithiadau eraill yn dweud, ar gyfer 'cywiro syniadau anghywir, dangos beth dŷn ni'n ei wneud o'i le, a'n dysgu ni i fyw yn iawn.' Yn ogystal â chofnodi hanes pobl Dduw o'r greadigaeth ymlaen, a chynllun Duw ar gyfer ein prynedigaeth a'n hadfer, mae'n addysgu ni ynghlyn â llu o bynciau fel hunaniaeth, perthnasoedd, cyfeillgarwch, cyllid, gorffwys, gwaith a chymaint o bethau eraill. Mae'n ein ceryddu a'n cywiro trwy ein herio i ddod yn debycach i Iesu, a thrwy ein hyfforddi mewn cyfiawnder.

### PETHAU I'W HYSTYRIED:

- Os, fel mae'r Beibl yn dweud, 'Duw sydd wedi ysbrydoli'r ysgrifau sanctaidd', sut mae delio â'r rhannau rydyn ni'n anghytuno â nhw, neu ddim yn eu deall? Fedrwn ni innau anwybyddu nhw, neu fynd i'r afael â'u cyd-destun a'u hystyr?
- Gall darllen y Beibl mewn cymuned, mewn grŵp gweddi, grŵp astudiaeth neu grŵp cartref fod yn ffordd wych o fynd yn ddyfnach i air Duw, gan ei fod yn rhoi cyfle inni ddysgu oddi wrth ein gilydd a gofyn cwestiynau anodd
- Mae gair Duw yn cael ei ddisgrifio yn Hebreaid 4.12 yn 'fywiol a nerthol,' gallwch ddarllen un darn nifer o weithiau, a bydd yr Ysbryd Glân yn goleuo rhywbeth gwahanol i ni bob tro y byddwn yn ei ddarllen. Ystyriwch rannu enghraifft gyda'r gynulleidfa lle rydych chi wedi gweld bod hyn yn wir
- Mae Cymdeithas y Beibl yn credu mai rhodd Duw i'r byd yw'r Beibl. Rydyn ni'n ei rannu oherwydd bod ni eisiau i bawb ddarganfod ei neges iddyn nhw ei hunain ac oherwydd ein bod ni'n credu ei fod yn newid bywydau am byth. Rydyn ni'n casglu tystiolaethau o sut mae'r Beibl yn newid bywydau yma: biblesociety.org.uk/latest/mybible ac mae croeso i chi rannu un neu fwy o'r straeon hyn gyda'ch cynulleidfa.

Hawlfraint © Cymdeithas y Beibl 2024

## 3 Rhannwch Newyddion Da Iesu tra fod pobl dal eisiau gwrando!

Ar ddechrau 2 Timotheus 4, mae'r Apostol Paul yn edrych ymlaen at ail ddyfodiad Crist, ond mae hefyd yn ymwybodol bod llawer o waith i'w wneud cyn i hynny ddigwydd. Felly, mae'n rhoi siars i Timotheus, (adnod 1). Cofiwch, roedd siars yn ddatganiad oedd yn cael ei wnaed gerbron tystion mewn achos cyfreithiol, felly Paul o ddifrif ac yn glir ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud gyda'r gwirioneddau a wyddai Timotheus; roedd angen rhannu'r gair gydag eraill. Yn sicr mae yna frys yng ngeiriau Paul wrth iddo ddatgan, 'mae'r amser yn dod pan fydd pobl ddim yn gallu goddef dysgeidiaeth dda. Byddan nhw'n dilyn eu chwantau eu hunain ac yn dewis pentwr o athrawon fydd ond yn dweud beth maen nhw eisiau ei glywed' (adnod 3).

**PETHAU I'W HYSTYRIED:**

- Nid pawb sy'n cael eu galw i bregethu o bulpud, ond gallwn ni gyd rannu Newyddion Da Iesu Grist gydag eraill mewn rhyw ffordd. Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o rannu Iesu ag eraill yw trwy agor ein cartrefi a bwyta pryd o fwyd gyda'n gilydd. Ceir hefyd gyfleoedd i rannu am Dduw mewn clybiau chwaraeon, neu wrth giât yr ysgol, ac efallai yn y gweithle

- Yn y Deyrnas Unedig rydym yn ffodus ein bod yn gallu cwrdd yn agored yn ein mannau addoli heb ofni cael ein cau i lawr neu'n herlid mewn rhyw ffordd. Yn anffodus, nid yw hyn yn wir mewn mannau eraill yn y byd

### Ffoaduriaid o Iran yn ceisio Iesu

Magwyd Darius* mewn teulu Mwslimaidd caeth yn Iran, ond achosodd trais a chreulondeb cyfundrefn Iran amheuon iddo. 'Fesul tipyn, dechreuais gasáu Islam,' ymddiried Dareius. 'Roeddwn i'n teimlo'n wag.'

Dyma Darius yn dechrau edrych i mewn i bethau. Darllenodd ddarnau o'r Ysgrythur ar-lein, yna fe'i gwahoddwyd gan ffrind i eglwys tŷ tanddaearol. Roedd derbyn y gwahoddiad yn risg enfawr. Wedi'r cyfan, gall Mwslim sy'n mynychu eglwys gyfrinachol yn Iran gael ei garcharu a hyd yn oed ei arteithio. Ond yn yr ystafell fach honno, cyffyrddodd yr Ysbryd Glân â chalon Darius. 'Dydw i ddim yn derbyn pethau'n hawdd, ac roeddwn i jyst yno i wylio,' meddai Darius. 'Ond pan wnaethon nhw ddweud mai cariad yw Duw... roedd yn anhygoel... Gweddïais a wnes i ddod yn Gristion.'

Dylai neb synnu o wybod fod pethau wedi bod yn anodd yn Iran i Darius ar ôl hynny. Ni allwn rannu'r hyn a ddigwyddodd ond mae'r dyn ifanc yma yn awr, yn chwilio am loches. A phan gerddodd i mewn i eglwys yn y DU am y tro cyntaf erioed, croesawyd Darius â breichiau agored.

*Newidiwyd yr enw i ddiogelu ei hunaniaeth

### Gallwch wneud gwahaniaeth

Doedd Darius erioed wedi gweld Beibl yn ei iaith hyd yn oed, heb sôn am gael un ei hun. Heddiw, gallwch chi ddarparu Beiblau i Iraniaid sy'n ysu am gael adnabod Iesu. Mae Iraniaid fel Darius yn dod i eglwysi'r DU, yn chwilio am Iesu ac mae'n costio dim ond £20 i roi Beibl Ffarsi modern arbennig, hawdd ei ddarllen yn eu dwylo.

- **Mae £20 yn darparu Beibl Ffarsi modern arbennig, hawdd ei ddarllen i gredwr o Iran.**
- **Mae £80 yn darparu digon o Feiblau i Gristnogion newydd mewn grŵp astudio.**
- **Mae £500 yn darparu Beiblau i eglwys fel y gallant ddisgyblu credinwyr newydd.**

Hawlfraint © Cymdeithas y Beibl 2024

## I orffen:

Yn hwyrach mewn 2 Timotheus 4, mae Paul yn sôn am fod Paul wedi 'rhedeg y ras i'r pen, a dwi wedi aros yn ffyddlon' (adnod 7). Byddai'r rhedwr marathon Kathrine Switzer yn gwbl ymwybodol bod rhedeg ras yn gofyn am ddisgyblaeth, hyfforddiant a dyfalbarhad. Mae darllen y Beibl hefyd yn cymryd y tri!

Mae'n cymryd disgyblaeth i neilltuo amser bob dydd i ddarllen darn o'r Ysgrythur. Efallai na welwn ganlyniadau ar unwaith wrth i ni gael ein 'hyfforddi mewn cyfiawnder' trwy air Duw, ond wrth i ni ymgyfarwyddo â'r geiriau hynny a anadlir yn fwriadol gan Dduw, rydym yn sicr o ddod yn debycach i Iesu. Sul y Beibl hwn, beth am benderfynu dyfalbarhau gydag astudio'r Beibl a gweddïo y gallech chi dyfu yn eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o bethau Duw?

Mae Cymdeithas y Beibl yn credu bod y Beibl ar gyfer pawb. Pan fyddwn yn ei ddarllen, byddwn yn darganfod mwy am Dduw Dad, Duw'r Mab a Duw yr Ysbryd Glân; rydym yn hefyd yn darganfod mwy amdanom ni ein hunain; a mwy am y byd. Rydyn ni eisiau gweld byd lle gall bawb brofi'r Ysgrythur a'i gallu i drawsnewid bywydau a chymdeithasau er gwell. Mae eglwysi iach, a Christnogion ysbrydol iach, bob amser yn pwysleisio a rhoddi gwerth ar ddarllen a chymhwyso'r Ysgrythurau.

## Adnoddau Cymdeithas Y Beibl:

Mae Agor y Llyfr yn un o weinidogaethau mwyaf sefydledig ac effeithiol Cymdeithas y Beibl. Mae'n dod â gair Duw i blant ysgol trwy adrodd straeon arloesol, drama weithredol a chyfraniadau o'r gynulleidfa. Mae timau gwirfoddol yn mynd i mewn i ysgolion ledled y wlad yn adrodd storïau am ddeg i bymtheg munud wedi'u sgriptio ar gyfer plant ysgol gynradd mewn gwasanaethau boreol. Tybed a allai eich eglwys chi ffurfio tîm Agor y Llyfr i rannu gair Duw gyda phlant heddiw?

Mae'r *Cwrs Y Beibl* yn gyfres sy'n seiliedig ar fideos sy'n rhoi trosolwg o stori fawr yr Ysgrythur a sut mae'r llyfrau i gyd yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae'n un o adnoddau mwyaf poblogaidd Cymdeithas y Beibl.

Mae Cymdeithas y Beibl wedi lansio *Cwrs Rhufeiniaid* yn ddiweddar ar gyfer grwpiau. Yn debyg i Gwrs y Beibl, mae'n para awr, ac mae'n annog ni i drochi yn un o lythyrau mwyaf darllenedig Paul. Gydag esboniadau fideo wedi'u ffilmio yn Rhufain, ceir cwestiynau trafod a thystiolaethau ar gyfer pob sesiwn ac mae'r gyfres deg rhan hon yn ffordd wych o fynd i'r afael â llythyr heriol.

Mae Cymdeithas y Beibl eisiau i bawb gael hyd i Feibl a deall ei neges ar eu cyfer. Rydyn ni'n ei gyfieithu i wahanol ieithoedd ac rydym yn gwahodd pobl i ymgysylltu ag ef trwy'r adnoddau rydyn ni'n eu darparu. Ar Sul y Beibl, ystyriwch gefnogi cynllun Beibl y Mis Cymdeithas y Beibl gyda rhodd reolaidd o £10 y mis neu fwy i ddarparu Beiblau fis ar ôl mis i'r rhai sydd â'r angen mwyaf o'r Ysgrythurau.

*Rooted* yw enw cyfnodolyn Cymdeithas y Beibl. Mae pob rhifyn yn seiliedig ar thema neu lyfr o'r Beibl, mae'n ddefosiynol gyda digon o le i fyfyrio a bod yn greadigol. O fewn cymuned 'Rooted', mae tanysgrifwyr nid yn unig yn derbyn cyfnodolyn newydd bob yn ail fis, gan ddyfnhau eu profiad o'r Beibl, ond maen nhw'n cefnogi'r gwaith i sicrhau bod y Beibl ar gael ledled y byd. Ochr yn ochr â'r cyfnodolion, mae yna hefyd podlediad y gall unrhyw un wrando arno am ddim. Ymunwch â ni am sgyrsiau dwfn am y Beibl i weld sut gallwn ei gymhwyso i'n bywydau bob dydd.

Mae Beibl.net i bobl ifanc yn Feibl Cymraeg newydd i bobl ifanc, wedi'i greu mewn partneriaeth rhwng Cymdeithas y Beibl a Youth for Christ. Dim ots faint o weithiau rydych wedi darllen y Beibl o'r blaen neu ba mor agos rydych yn teimlo at Dduw, hwn yw'r llyfr i chi.

Hawlfraint © Cymdeithas y Beibl 2024